

Sunday 6th July 2025
+ The Third Sunday after Trinity

The collect of the day

Almighty God, you have broken the tyranny of sin and have sent the Spirit of your Son into our hearts whereby we call you Father : give us grace to dedicate our freedom to your service, that we and all creation may be brought to the glorious liberty of the children of God; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you, in the unity of the Holy Spirit, one God, now and for ever. AMEN

The reading from Isaiah
(66.10-14)

Rejoice with Jerusalem, and be glad for her, all you who love her; rejoice with her in joy, all you who mourn over her — that you may nurse and be satisfied from her consoling breast; that you may drink deeply with delight from her glorious bosom.

For thus says the LORD: I will extend prosperity to her like a river, and the wealth of the nations like an overflowing stream; and you shall nurse and be carried on her arm, and dandled on her knees. As a mother comforts her child, so I will comfort you; you shall be comforted in Jerusalem. You shall see, and your heart shall rejoice; your bodies shall flourish like the grass; and it shall be known that the hand of the LORD is with his servants, and his indignation is against his enemies.

The Psalm
(66.1-8)

Be joyful in God / all the / earth :
sing the glory of his name; sing the /
glory / of his / praise. Say to God, ‘How

awesome / are your / deeds! : Because of
your great strength your / enemies shall /
bow be/fore you.

All the / earth shall / worship you :
sing to you, sing / praise / to your /
name.’ Come now and behold the /
works of / God : how wonderful he is in
his / dealings with / human/kind.

He turned the sea into dry land; the
river they passed / through on / foot:
there / we re/joyced in / him. In his might
he rules for ever; his eyes keep watch /
over the / nations: let no / rebel rise / up
a/gainst him.

Bless our God, / O you / peoples:
make the voice of his / praise / to be /
heard, Who holds our / souls in / life:
and suffers / not our / feet to / slip.

The reading from Galatians
(6. 7-16)

My friends, do not be deceived; God
is not mocked, for you reap whatever
you sow. If you sow to your own flesh,
you will reap corruption from the flesh;
but if you sow to the Spirit, you will
reap eternal life from the Spirit.

So let us not grow weary in doing
what is right, for we will reap at harvest
time, if we do not give up. So then,
whenever we have an opportunity, let us
work for the good of all, and especially
for those of the family of faith.

See what large letters I make when I
am writing in my own hand! It is those
who want to make a good showing in
the flesh that try to compel you to be
circumcised — only that they may not
be persecuted for the cross of Christ.

Even the circumcised do not
themselves obey the law, but they want

you to be circumcised so that they may
boast about your flesh.

May I never boast of anything except
the cross of our Lord Jesus Christ, by
which the world has been crucified to
me, and I to the world. For neither
circumcision nor uncircumcision is
anything; but a new creation is
everything!

As for those who will follow this rule
— peace be upon them, and mercy, and
upon the Israel of God.

The reading from the Gospel Christ
according to Saint Luke
(10.1-12, 17-20)

The Lord appointed seventy others
and sent them on ahead of him in pairs
to every town and place where he
himself intended to go. He said to them,
‘The harvest is plentiful, but the
labourers are few; therefore ask the Lord
of the harvest to send out labourers into
his harvest. Go on your way. See, I am
sending you out like lambs into the
midst of wolves.

‘Carry no purse, no bag, no sandals;
and greet no one on the road. Whatever
house you enter, first say, “Peace to this
house!” And if anyone is there who
shares in peace, your peace will rest on
that person; but if not, it will return to
you. Remain in the same house, eating
and drinking whatever they provide, for
the labourer deserves to be paid. Do not
move about from house to house.

‘Whenever you enter a town and its
people welcome you, eat what is set
before you; cure the sick who are there,
and say to them, “The kingdom of God
has come near to you.” But whenever
you enter a town and they do not
welcome you, go out into its streets and


say, “Even the dust of your town that
clings to our feet, we wipe off in protest
against you. Yet know this: the kingdom
of God has come near.” I tell you, on
that day it will be more tolerable for
Sodom than for that town.’

The seventy returned with joy,
saying, ‘Lord, in your name even the
demons submit to us!’

He said to them, ‘I watched Satan fall
from heaven like a flash of lightning.
See, I have given you authority to tread
on snakes and scorpions, and over all the
power of the enemy; and nothing will
hurt you. Nevertheless, do not rejoice at
this, that the spirits submit to you, but
rejoice that your names are written in
heaven.’

The collect after communion

O God, whose beauty is beyond our
imagining and whose power we cannot
comprehend: show us your glory as far
as we can grasp it, and shield us from
knowing more than we can bear until we
may look upon you without fear. AMEN



Dydd Sul 6^{ed} Gorffennaf 2025
+ Y Trydydd Sul wedi'r Drindod

Colect y dydd

Hollalluog Dduw, torraist ormes pechod ac anfon Ysbryd dy Fab i'n calonnau a thrwyddo yr ydym yn dy alw'n Dad : dyro i ni ras i gysegru ein rhyddid i'th wasanaeth, fel y dygir ni a'r greadigaeth gyfan i ryddid gogoneddus plant Duw; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Eseia
(66.10-14)

"Llawenhewch gyda Jerwsalem, a byddwch yn falch o'i herwydd, bawb sy'n ei charu; llawenhewch gyda hi â'ch holl galon, bawb a fu'n galaru o'i phlegid, er mwyn ichwi fedru sugno a chael eich diwallu o'i bronnau diddanus, er mwyn ichwi fedru tynnu arni a chael eich diddanu gan ddigonedd ei gogoniant."

Fel hyn y dywed yr ARGLWYDD: "Edrychwch, 'rwy'n estyn iddi heddwch fel afon, a golud y cenhedloedd fel ffrwd lifeiriol. Cewch sugno, cewch eich cludo ar ei hystlys, a'ch siglo ar ei gliniau. Fel y cysurir plentyn gan ei fam byddaf fi'n eich cysuro chwi; ac yn Jerwsalem y'ch cysurir. Cewch weld hyn, a bydd yn llawenydd i'ch calon, bydd eich holl gorff yn ffynnu fel llysieuyn; dangosir bod llaw yr ARGLWYDD gyda'i weision, a'i lid yn erbyn ei elynion.

Y Salm
(66,1-8)

Bloeddiwch mewn gorfoledd i Dduw, yr holl ddaear; canwch i ogoniant ei enw; rhowch

iddo foliant gogoneddus.

Dywedwch wrth Dduw, "Mor ofnadwy yw dy weithredoedd! Gan faint dy nerth ymgreinia dy elynion o'th flaen; y mae'r holl ddaear yn ymgrymu o'th flaen, ac yn canu mawl i ti, yn canu mawl i'th enw."

Dewch i weld yr hyn a wnaeth Duw — y mae'n ofnadwy yn ei weithredoedd tuag at bobl — trodd y môr yn sychdir, aethant ar droed trwy'r afon; yno y llawenychwn ynddo.

Y mae ef yn llywodraethu â'i nerth am byth, a'i lygaid yn gwylio dros y cenhedloedd; na fydded i'r gwrthryfelwyr godi yn ei erbyn! Bendithiwch ein Duw, O bobloedd, a seiniwch ei fawl yn glywadwy.

Darlleniad o Galatiaid
(6. 7-16)

Peidiwch â chymryd eich camarwain; ni chaiff Duw mo'i watwar, oherwydd beth bynnag y mae rhywun yn ei hau, hynny hefyd y bydd yn ei fedd. Bydd y sawl sy'n hau i'w gnawd ei hun yn medi o'i gnawd lygredigaeth, a'r sawl sy'n hau i'r Ysbryd yn medi o'r Ysbryd fywyd tragwyddol.

Peidiwn â blino ar wneud daioni, oherwydd cawn fedd'r cynhaeaf yn ei amser, dim ond inni beidio â llaesu dwylo. Felly, tra bydd amser gennym, gadewch inni wneud da i bawb, ac yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd.

Gwelwch mor fras yw'r llythrennau hyn yr wyf yn eu hysgrifennu atoch â'm llaw fy hun. Rhai â'u bryd ar rodres yn y cnawd yw'r rhieni sy'n ceisio eich gorfodi i dderbyn enwaediad, a hynny'n unig er mwyn iddynt hwy arbed cael eu herlid o achos croes Crist. Oherwydd

nid yw'r rhai a enwaedir eu hunain hyd yn oed yn cadw'r Gyfraith. Y maent am i chwi dderbyn enwaediad er mwyn iddynt hwy gael ymffrostio yn eich cnawd chwi.

O'm rhan fy hun, cadwer fi rhag ymffrostio mewn dim ond yng nghroes ein Harglwydd Iesu Grist, y groes y mae'r byd drwyddi wedi ei groeshoelio i mi, a minnau i'r byd. Nid enwaediad sy'n cyfrif, na dienwaediad, ond creadigaeth newydd.

A phawb fydd yn rhodio wrth y rheol hon, tangnefedd arnynt, a thrugaredd, ie, ar Israel Duw!

Gwrandewch Efengyl Crist
yn ôl Sant Luc
(10.1-12, 17-20)

Wedi hynny penododd yr Arglwydd ddeuddeg a thrigain arall, a'u hanfon allan o'i flaen, bob yn ddau, i bob tref a man yr oedd ef ei hun am fynd iddynt. Dywedodd wrthynt, "Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin; deisyfwch felly ar arglwydd y cynhaeaf i anfon gweithwyr i'w gynhaeaf. Ewch; dyma fi'n eich anfon allan fel ŵyn i blith bleiddiaid.

"Peidiwch â chario na phwrs na chod na sandalau, a pheidiwch â chyfarch neb ar y ffordd. Pa dŷ bynnag yr ewch i mewn iddo, dywedwch yn gyntaf, 'Tangnefedd i'r teulu hwn.' Os bydd yno rywun tangnefeddus, bydd eich tangnefedd yn gorffwys arno ef; onid e, bydd yn dychwelyd atoch chwi. Arhoswch yn y tŷ hwnnw, a bwyta ac yfed yr hyn a gewch ganddynt, oherwydd y mae'r gweithiwr yn haeddu ei gyflog. Peidiwch â symud o dŷ i dŷ.

"Ac i ba dref bynnag yr ewch, a chael derbyniad, bwytwch yr hyn a osodir

o'ch blaen. Iachewch y cleifion yno, a dywedwch wrthynt, 'Y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos atoch.' Pa dref bynnag yr ewch iddi a chael eich gwrthod, ewch allan i'w strydoedd a dywedwch, 'Yn eich erbyn chwi, yr ydym yn sychu ymaith hyd yn oed y llwch o'ch tref a lynodd wrth ein traed. Eto gwybyddwch hyn: y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos.' Rwy'n dweud wrthynt y caiff Sodom ar y Dydd hwnnw lai i'w ddioddef na'r dref honno."

Dychwelodd y deuddeg a thrigain yn llawen, gan ddweud, "Arglwydd, y mae hyd yn oed y cythreuliaid yn ymddarostwng inni yn dy enw di."

Meddai wrthynt, "Yr oeddwn yn gweld Satan fel mellten yn syrthio o'r nef. Dyma fi wedi rhoi i chwi yr awdurdod i sathru ar seirff ac ysgorpionau, ac i drechu holl nerth y gelyn; ac ni'ch niweidir chwi gan ddim. Eto, peidiwch â llawenhau yn hyn, fod yr ysbrydion yn ymddarostwng i chwi; llawenhewch oherwydd fod eich enwau wedi eu hysgrifennu yn y nefoedd."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

O Dduw, sydd â'th brydferthwch y tu hwnt i'n dychymyg a'th nerth y tu hwnt i'n deall: dangos i ni dy ogoniant i'r graddau y gallwn ei amgyffred, ac amddiffyn ni rhag gwybod mwy nag y gallwn ei oddef nes y cawn edrych arnat yn ddi-ofn; trwy Iesu Grist ein Gwaredwr. AMEN